# Crynodeb o'r ymatebion

## Ymgynghoriad ar y Cyd-ddatganiad drafft ar bysgodfeydd

Dyddiad: Mehefin 2022

Department for Environment Food & Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

The Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba

Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs
www.daera-ni.gov.uk

OGL

© Hawlfraint y goron 2022

Mae'r wybodaeth hon wedi'i thrwyddedu o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn https://www.gov.uk/government/consultations/draft-joint-fisheries-statement-jfs

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn:

jfs@defra.gov.uk

# Trosolwg

## Cefndir polisi

Mae pysgodfeydd môr yn bwysig iawn i'r Deyrnas Unedig – mae'r sector bwyd môr yn ffynhonnell bwyd, swyddi, diwylliant, balchder ac ymdeimlad cryf o berthyn yn ein cymunedau. Mae'r stociau pysgod y mae'r cymunedau hyn yn dibynnu arnyn nhw'n cynnal gweithgareddau hamdden sylweddol ac yn cyfrannu at iechyd ecosystemau'r môr.

Â'r DU bellach wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE), mae'r awdurdodau polisi pysgodfeydd, trwy'r Cyd-ddatganiad ar Bysgodfeydd (JFS), am ddisgrifio cynlluniau ar gyfer cefnogi polisïau pysgodfeydd cynaliadwy sydd wedi'u creu'n unswydd i ateb gofynion ein diwydiant ac amgylchedd ein moroedd. Mae Deddf Pysgodfeydd 2020 (y Ddeddf) yn ymgorffori mewn cyfraith ein hymrwymiad i bysgota cynaliadwy, er lles cenedlaethau pysgotwyr y dyfodol, ond hefyd er mwyn i'n hamgylchedd morol allu ffynnu. Mae'n fframwaith sy'n ein rhwymo'n gyfreithiol i ddiogelu ac adfer stociau, cynnal diwydiant pysgota cynaliadwy a gwarchod yr amgylchedd. O fewn y Ddeddf, pennwyd amcanion ar gyfer ein pysgodfeydd sy'n gosod cyfeiriad strategol i'r DU ar gyfer rheoli pysgodfeydd yn gynaliadwy. Mae gofyn i awdurdodau polisi pysgodfeydd y DU ddatblygu JFS, ac amlinellu ein polisïau ar gyfer cyflawni, neu gyfrannu at gyflawni, yr amcanion.

Mae gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Gogledd Iwerddon a Llywodraeth yr Alban hanes o gydweithio'n gynhyrchiol â'i gilydd ar reoli pysgodfeydd i ddiffinio a gwireddu gweledigaeth y DU ar gyfer cefnforoedd a moroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol a bioamrywiol. Paratowyd y JFS drafft ar y cyd gan yr awdurdodau polisi pysgodfeydd at ddibenion ymgynghori.

Mae rheoli pysgodfeydd yn bwnc sydd wedi'i ddatganoli yn y DU i raddau helaeth. Fel rhan o Fframwaith Rheoli a Chefnogi Pysgodfeydd y DU (y Fframwaith Pysgodfeydd), mae'r JFS yn fecanwaith ar gyfer rheoli'r gwahaniaethau o ran polisi gan bennu amcanion cyffredin y gall yr holl weinyddiaethau weithio tuag atyn nhw. Fel Gwlad arfordirol gyfrifol, mae'r JFS yn esbonio'n fframwaith polisi ar gyfer gweithio â'n partneriaid rhyngwladol i sicrhau bod adnoddau'r pysgodfeydd rydym yn eu rhannu'n cael eu rheoli'n gynaliadwy dros yr hirdymor. Trwy'r JFS, a'r polisïau a'r mesurau rheoli a ddaw ohono, bydd awdurdodau polisi pysgodfeydd y DU yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu diwydiant pysgota llewyrchus ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol wrth ddiogelu ac adfer yr amgylchedd morol y mae'r diwydiant a'r gymdeithas ehangach yn dibynnu arno.

## Y cyfnod ymgynghori

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar y JFS drafft ddydd Mawrth 18 Ionawr 2022 ac roedd ar agor am 12 wythnos, gan gau ddydd Mawrth 12 Ebrill.


## Pam y gwnaethom ofyn i bobl am eu barn

Lansiwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn unol â gofynion y Ddeddf. Mae'r awdurdodau polisi pysgodfeydd yn cydnabod bod trafod â rhanddeiliaid yn hollbwysig i sicrhau bod y JFS yn ateb ei ddiben ac roeddem yn awyddus, trwy'r broses ymgynghori, i glywed gan unrhyw un sydd â diddordeb ym mholisïau'r JFS, a chan aelodau'r cyhoedd, neu unrhyw un y gallant effeithio arno.

## Dadansoddiad o'r ymatebion

Derbyniwyd cyfanswm o 138 o ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus, a chyflwynwyd y rhan fwyaf ohonynt trwy Citizen Space. Anfonwyd y gweddill trwy e-bost. Ceir dadansoddiad o'r ymatebion yn ôl y math o randdeiliaid a gwlad yn y siartiau isod.

Ffigur 1: Nifer yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn ôl sector.





*Casglwyd y data hwn naill ai drwy Citizen Space, lle'r oedd ymatebwyr yn nodi a ydynt yn perthyn i sector, neu fe'i cwblhawyd yn unol â'r manylion a ddarparwyd gan bob ymatebydd.*

Grŵp buddiant
Sector Cynhyrchwyr / Dal Pysgod
Corff Cyhoeddus
Unigolyn

Pysgota Hamdden yn y Môr
Gwyddoniaeth / Ymchwil
Arall
Cyflenwi/Manwerthwr
Dyframaeth
Prosesu

Ffigur 2: Dadansoddiad o'r ymatebion yn ôl ardal ddaearyddol.




*Casglwyd y data hwn naill ai drwy Citizen Space, neu fe'i cwblhawyd yn unol â'r manylion a ddarparwyd gan bob ymatebydd. Roedd ymatebwyr naill ai wedi nodi eu bod yn perthyn i ardal ddaearyddol, neu wedi nodi i ba ardal ddaearyddol y mae eu hymateb yn berthnasol. Am y rheswm hwn, dewisodd pob ymatebydd unigol sawl gwlad lle bo hynny'n berthnasol.*

Dadansoddiad yn ôl ardal ddaearyddol

Lloegr
Y Deyrnas Unedig
Yr Alban
Cymru
Gogledd Iwerddon
Arall
Ynys Manaw
UE
Ffrainc

Oherwydd natur ansoddol yr ymatebion, cwblhawyd dadansoddiad thematig. Defnyddiwyd dull ailadroddol i ddadansoddi pob ymateb, ac adolygwyd pob ymateb ddwywaith er mwyn nodi'r themâu a godwyd gan ymatebwyr a'r argymhellion polisi a gyflwynwyd. Cafodd ansawdd y dadansoddiad hwn ei sicrhau a lluniwyd crynodeb ar gyfer pob ymateb. Defnyddiwyd y crynodebau hyn i gynhyrchu'r crynodeb o ymatebion a amlinellir isod.

## Crynodeb o’r ymatebion

Fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus, gofynnwyd nifer o gwestiynau i ymatebwyr er mwyn cael gwybodaeth amdanyn nhw eu hunain neu eu sefydliad (gweler y siartiau uchod). Yna gofynnwyd pedwar cwestiwn i roi cyfle iddynt fynegi eu barn ar gynnwys y JFS drafft. Ceir crynodebau o'r ymatebion i'r pedwar cwestiwn isod.

### Cwestiwn: I ba raddau rydych yn credu y bydd y polisïau a ddisgrifir yn y JFS drafft yn cyflawni, neu'n cyfrannu at gyflawni'r amcanion ar gyfer pysgodfeydd?

Er bod nifer o ymatebion yn mynd i'r afael â'r cwestiwn eang hwn yn uniongyrchol, roedd y rhan fwyaf wedi dewis canolbwyntio ar feysydd polisi penodol, gan leisio eu barn yn aml ar y cynnwys yr hoffent ei weld, neu maent yn disgwyl ei weld, yn y JFS. Mae'r ddau fath o ymateb wedi'u cynnwys yn y crynodebau isod. Amlinellir y themâu isod ac fe'u cyflwynir yn nhrefn yr wyddor. Mae'r cynnwys o fewn y themâu wedi'i drefnu'n fras i ddangos pa mor gryf y daeth pwyntiau o fewn y thema i'r amlwg yn y dadansoddiad.

#### Sgil-ddalfeydd

Un maes polisi a drafodwyd gan lawer o ymatebwyr oedd sgil-ddalfeydd. Cafwyd ceisiadau mynych i'r JFS ddarparu manylion penodol am fesurau rheoli ar gyfer sgil-ddalfeydd, ac roedd nifer o ymatebwyr yn galw ar y JFS i fynd i'r afael â sut y bydd modd taflu llai o bysgod yn ôl i'r môr a lleihau sgil-ddalfeydd. Roedd nifer o ymatebion, gan gynnwys llawer a gyflwynwyd gan grwpiau buddiant a Chyrff Anllywodraethol amgylcheddol (eNGOs), yn gofyn am gyflwyno system Monitro Electronig o Bell (REM) orfodol ar longau. Gofynnodd lleiafrif bach o ymatebwyr am 'ymrwymiadau cadarn, gyda chyfyngiadau o ran amser i gyflwyno Monitro Electronig o Bell gorfodol.’ Nododd nifer fach o ymatebwyr eu diddordeb mewn cael eglurhad yn y JFS ynglŷn â phryd y mae'n "briodol" defnyddio eithriadau o ran taflu pysgod yn ôl i'r môr ac ehangu'r diffiniad o 'rywogaethau sensitif’.

#### Newid hinsawdd

O safbwynt newid yn yr hinsawdd, yn gyffredinol roedd ymatebwyr yn croesawu cydnabyddiaeth o bwysigrwydd ystyried sut mae'r sector yn gallu lliniaru'r newid yn yr hinsawdd. Fodd bynnag, dywedodd llawer eu bod yn teimlo bod angen rhagor o fanylion am sut i ddatgarboneiddio fflyd y DU, cyfraniad yr amgylchedd morol at gyflawni sero net, a pholisïau i fynd i'r afael ag effeithiau pysgota a dyframaethu ar gynefinoedd carbon glas. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys cynhyrchwyr, pobl sy'n dal pysgod a grwpiau buddiant, at yr angen am gymorth i'r diwydiant addasu. Roedd lleiafrif bach o ymatebwyr o'r sector cynhyrchu/dal pysgod yn teimlo bod y JFS wedi methu â chydnabod y cyfleoedd y gallai newid yn yr hinsawdd eu cynnig i fflyd y DU, yn enwedig o safbwynt symudiadau stoc.

### Cynlluniau rheoli pysgodfeydd

Maes ychwanegol a gafodd sylw arwyddocaol mewn ymatebion i'r ymgynghoriad oedd Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd (FMPs) (gweler y crynodebau o dan y cwestiwn FMP isod hefyd). Yn gyffredinol, cafwyd cefnogaeth mewn llawer o ymatebion i'r ymrwymiad i lunio FMPs fel offeryn rheoli. Roedd pryderon yn tueddu i ganolbwyntio ar y posibilrwydd na fyddai'r cynlluniau hyn yn cynnwys polisïau penodol a fyddai'n sicrhau pysgota cynaliadwy neu amgylchedd morol iach. Roedd nifer o ymatebion yn galw am ddull seiliedig ar ecosystemau o ymdrin â Chynlluniau Rheoli Pysgodfeydd, lle mae cynlluniau'n cael eu creu ar lefel pysgodfeydd yn hytrach na lefel stoc neu rywogaethau. Rhannwyd y pryder hwn gan gynhyrchwyr a dalwyr pysgod, cyflenwyr a manwerthwyr ac un grŵp buddiant. Roedd materion eraill a godwyd gan rai rhanddeiliaid yn cynnwys diffyg polisi manwl ynglŷn â sut y byddai'r FMPs yn lleihau sgil-ddalfeydd neu'n gwella'r broses o gasglu data er mwyn sefydlu pwyntiau cyfeirio gwyddonol.

### Cyfleoedd pysgota

Cynhyrchodd yr ymgynghoriad safbwyntiau amrywiol ar gyfleoedd pysgota, rheolau cwota a rheoli cwota. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion hynny'n awgrymu mewn rhyw ffordd y dylid newid y dull gweithredu – boed hynny'n symleiddio'r rheolau, mwy o ryloywder ac atebolrwydd, dyraniad yn seiliedig ar arfer gorau, dyrannu cwota'n gynharach, mabwysiadu dull mwy seiliedig ar ecosystemau, ailddosbarthu cyfleoedd pysgota a oedd yn cynnig, er enghraifft, mwy o degwch o fewn a rhwng fflydoedd y glannau ac alltraeth, neu well cydbwysedd rhwng yr angen am ddiogeledd bwyd a chynaliadwyedd.

### Amgylchedd morol iach

Yn gysylltiedig â sylwadau'n ymwneud ag amgylchedd morol iach, roedd llawer o ymatebwyr wedi cyfeirio at gynllunio gofodol yn y môr yn eu cyflwyniadau. Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn galw am ragor o fanylion am sut y bydd Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn cael eu rheoli. Roedd cynhyrchwyr a dalwyr yn benodol yn awyddus i weld rhagor o fanylion am sut y bydd effeithiolrwydd Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn cael ei fesur. Hefyd, roeddent yn teimlo bod angen i'r gwaith rheoli gofodol, yn enwedig ym mhysgodfeydd y glannau, flaenoriaethu anghenion pysgota, ac ystyried effaith dadleoli.

### Gwneud penderfyniadau cyfranogol

Un maes lle y cafwyd consensws cyffredinol ymysg ymatebwyr oedd pwysigrwydd ymgysylltu a gwneud penderfyniadau cyfranogol. Er bod nifer o ymatebion yn mynegi cefnogaeth i ymrwymiad y JFS i gydweithio a gwneud penderfyniadau cyfranogol, galwodd rhanddeiliaid ar draws y sectorau i'r JFS fod yn fwy eglur ynglŷn â'r prosesau ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid a'u cyfle i gyfrannu at brosesau gwneud penderfyniadau. Nododd lleiafrif bach o ymatebwyr o sefydliadau cynhyrchu

y byddent yn hoffi gweld cytundeb cyd-reoli yn y cyfnod cynnar, ac er eu bod yn fodlon â chynnwys y geiriad ar bartneriaeth a gwneud penderfyniadau cyfranogol, hoffent weld dull safonol o gyd-reoli sy'n cael ei ddeall gan bawb.

### Cynhyrchu, marchnata a bwyta bwyd môr

Mynegwyd cefnogaeth i'r polisïau ar farchnata a bwyta bwyd môr. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod angen rhoi sylw ychwanegol i labelu ac olrhain, hyrwyddo bwyd môr o ffynonellau lleol, codi ymwybyddiaeth defnyddwyr a datblygu marchnadoedd rhyngwladol ar gyfer bwyd môr y DU. Soniwyd hefyd am gasglu data a gwybodaeth am ddal pysgod er mwyn sicrhau tryloywder o safbwynt tarddiad pysgod sy'n cael eu dal.

### Pysgota hamdden yn y môr

Roedd rhai ymatebwyr yn beirniadu'r diffyg manylion am bysgota hamdden yn y môr, a'r cyfraniad y gall y sector hwn ei wneud i'r economi, tystiolaeth wyddonol a chasglu data. Mynegwyd barn bod y JFS yn rhoi mwy o flaenoriaeth i bysgota masnachol na physgota hamdden yn y môr, a bod manteision economaidd-gymdeithasol pysgota hamdden yn y môr wedi'u hanwybyddu.

### Gwyddoniaeth ac ymchwil

Roedd nifer o ymatebion yn canolbwyntio ar yr angen i ymrwymo i brosiectau ymchwil gwyddoniaeth amser penodol, a'u hariannu. Byddai hyn, yn ei dro, yn gwella'r broses o gasglu a modelu data, yn mynd i'r afael â bylchau mewn tystiolaeth wyddonol ac yn darparu canlyniadau gwell. Mynegwyd cefnogaeth i brosesau cydweithio ac ymgysylltu rhwng yr holl randdeiliaid, gan gynnwys y gymuned wyddonol ehangach, pysgotwyr neu eraill, a hynny ar bob lefel, gan gynnwys lefel ryngwladol.

### Crafu gwely'r môr

Roedd rhai ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ar grafu gwely'r môr yn argymell mathau gwahanol o ddiogelwch yn erbyn treillrwydo môr-waelodol. Mewn cyferbyniad, dywedodd eraill y gallai rhywfaint o dreillrwydo môr-waelodol fod yn gydnaws ag amcanion cadwraeth gwely'r môr, neu roeddent yn cwestiynu'r wyddoniaeth yn ymwneud â chrafu gwely'r môr.

### Cynaliadwyedd

Roedd cefnogaeth i'r amcan cynaliadwyedd a rheoli pysgodfeydd yn gynaliadwy. Fodd bynnag, yn gyffredinol, roedd mwyafrif yr ymatebwyr a gyfeiriodd at y mater yn teimlo bod modd cryfhau datganiadau ar bysgota cynaliadwy. Mynegwyd pryder am ddiffyg gwybodaeth ymddangosiadol am sut y byddai'r amcan cynaliadwyedd yn cael ei gyflawni; argaeledd data; a sut y byddai modd sicrhau cydbwysedd rhwng ffactorau economaidd-gymdeithasol, effeithiau amgylcheddol ac iechyd stoc pysgod.

Soniodd rhai ymatebwyr am yr angen i gydweithio ar reoli stociau sy'n cael eu rhannu a rheoli capasiti'r fflyd er mwyn sicrhau cynaliadwyedd.

**Targedau**

Roedd rhai ymatebwyr yn fodlon y byddai'r JFS yn sicrhau bod modd cyflawni'r amcanion ar gyfer pysgodfeydd. Roedd eraill o'r farn bod targedau sy'n seiliedig ar amser ar goll, ac y gallai hyn achosi anawsterau wrth gyflawni'r amcanion.

**Yr Amgylchedd Morol Ehangach**

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn cefnogi ymrwymiad y JFS i ddiogelu'r amgylchedd morol ehangach a'i nod o adennill stociau a lleihau allyriadau. Fodd bynnag, amlygodd llawer o'r ymatebion bryder nad oes gan y JFS bolisïau 'sylweddol' i sicrhau bod dull gweithredu seiliedig ar ecosystemau yn cael ei ddefnyddio i sicrhau cynaliadwyedd, cyrraedd Statws Amgylcheddol Da neu sicrhau pysgota ar sail y Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf. Roedd hyn yn bryder arbennig i grwpiau buddiant, a oedd yn galw am gynnwys datganiad ar sut y bydd yr amgylchedd morol yn cael ei ddiogelu a'i adfer dros amserlen glir.

**Sylwadau eraill**

Yn ogystal, cafwyd nifer o sylwadau cyffredinol yn ymwneud â'r cwestiwn hwn, ac er bod rhai ohonynt yn cefnogi nodau'r JFS ac yn cydnabod natur lefel uchel y JFS, roedd eraill yn canolbwyntio ar ddiffyg polisïau manwl neu ganfyddadwy ymddangosiadol.

Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at yr heriau sy'n wynebu'r gweithlu, gan gynnwys anawsterau'n ceisio denu pobl i'r diwydiant, naill ai o safbwynt datblygu'r farchnad lafur ddomestig neu ddefnyddio gweithwyr mudol, a mynediad atynt.

Roedd y materion eraill a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cynnwys galwadau am orfodi rheoliadau Pysgota Anghyfreithlon ac Anrheoleiddiedig nas Hysbysir amdano (IUU) yn llymach, mwy o bwyslais ar bwysigrwydd pysgota i gymunedau arfordirol, a darparu cyllid i gefnogi dulliau gweithredu arloesol yn y sector pysgota ac wrth gasglu data. Roedd galwadau am eglurhad ar bolisïau sbwriel morol, gyda rhai ymatebwyr yn gofyn am ymrwymiadau mwy cadarn a buddsoddiad i gefnogi ailgylchu. Ym maes dyframaethu, roedd grwpiau buddiant a Chyrff Anllywodraethol amgylcheddol yn benodol yn awyddus i weld ymrwymiad clir yn y JFS i sicrhau nad yw'r diwydiant yn niweidio amgylcheddau morol a'i fod yn destun rheoleiddio ac achredu priodol.

## Cwestiwn: Beth yw’ch barn am y cynigion ar gyfer datblygu Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd?

### FMP - dull gweithredu

Nododd nifer o ymatebwyr fod y dull sydd wedi'i amlinellu ar gyfer cyflwyno FMPs yn ymddangos yn synhwyrol. Cafwyd cydnabyddiaeth gyffredinol o natur ddatganoledig pysgodfeydd, a’r ffaith y byddai awdurdodau polisi pysgodfeydd yn cydweithio fel y bo'n briodol wrth greu'r cynlluniau.

Mynegodd rhai ymatebwyr bryder am allu'r awdurdodau polisi pysgodfeydd i gyflwyno'r FMPs yn unol â'r amserlen a awgrymwyd o ystyried nifer y blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd. Nododd eraill y byddai'r broses hon yn un heriol, na ddylid ei rhuthro, a bod angen datblygu FMPs ochr yn ochr â pholisïau morol eraill.

Roedd nifer o ymatebwyr eisiau gweld mwy o wybodaeth yn y JFS am sut y byddai'r FMPs yn cael eu gweithredu.

Roedd rhai ymatebwyr yn dadlau y byddai ymrwymiad i gynlluniau rheoli rhanbarthol yn ddefnyddiol.

Dadleuodd rhai ymatebwyr y dylai'r JFS gynnwys datganiad penodol y bydd pob FMP yn destun ymgynghoriad. Galwodd eraill am i'r JFS gynnwys yr egwyddorion a fydd yn sylfaen i'r ymgynghoriadau ar yr FMPs.

Dadleuodd nifer fach o ymatebwyr mai un o ddiffygion y dull FMP oedd y ffaith ei fod yn berthnasol i un stoc yn unig. Roedd yr ymatebwyr hyn yn dadlau o blaid dull gweithredu ar sail ardal gyfan a fyddai'n ystyried y berthynas gymhleth rhwng rhywogaethau.

Roedd yr ymatebwyr yn gobeithio nad yw'r rhestr arfaethedig o FMPs yn gynhwysfawr, ac y byddai cynlluniau pellach yn dod i'r amlwg fel sy'n briodol. Roedd rhai ymatebwyr yn cynnig FMPs ar gyfer stoc benodol. Roedd y rhain yn cynnwys lleden lefn, ystifflog a llymrïod.

Hefyd, dadleuodd rhai ymatebwyr fod angen datblygu'r FMPs ar gyfer Stociau Heb Gwota (NQS) ym mhob un o'r pedair Gweinyddiaeth.

Dadleuodd lleiafrif o'r ymatebwyr fod angen ymrwymo i gyfnod adolygu dwy flynedd ar gyfer pob FMP.

### FMP – monitro

Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon am sut y byddai FMPs yn cael eu monitro i sicrhau pysgota cynaliadwy. Roedd yr ymatebwyr hyn yn dadlau bod angen cyhoeddi canllawiau datblygu FMP, a bod angen sicrhau ansawdd FMPs yn rheolaidd ac yn annibynnol er mwyn sicrhau bod holl amcanion y Ddeddf ar gyfer pysgodfeydd yn cael eu hystyried a'u cyflawni.

**Gwneud penderfyniadau cyfranogol**

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn ym mhob grŵp sector yn dadlau bod yn rhaid datblygu a chyflwyno FMPs mewn cydweithrediad agos â rhanddeiliaid. Cyfeiriwyd at nifer o randdeiliaid penodol, gan gynnwys cymunedau pysgota, y diwydiant pysgota, a grwpiau priodol fel Awdurdodau Gwarchod Pysgodfeydd y Glannau (IFCAs) a Grwpiau Pysgodfeydd y Glannau Rhanbarthol.

Roedd rhai’n dadlau y dylai'r llywodraeth a'r diwydiant gydweithio i lunio'r FMPs, ac y dylent gynnwys cynlluniau i oresgyn heriau ehangach i ddiwydiant megis cynllunio'r gweithlu.

Galwodd rhai ymatebwyr am i Ddibyniaethau'r Goron gyfrannu at waith datblygu FMPs, yn enwedig cynlluniau sy'n ymwneud â chrancod a chimychiaid.

### Gwyddoniaeth a thystiolaeth

Nododd ymatebwyr bwysigrwydd gwyddoniaeth a thystiolaeth dda i helpu i ddatblygu'r FMPs. Fodd bynnag, mynegodd nifer ohonynt bryderon am faint o ddata sydd ar gael, a'i ansawdd i seilio penderfyniadau arno. Hefyd, mynegodd rhai ohonynt bryderon am y pwysau o safbwynt adnoddau ar dimau gwyddoniaeth i ddarparu'r dadansoddiad sydd ei angen i gefnogi'r FMPs. Dadleuodd lleiafrif o'r ymatebwyr y dylai corff gwyddonol annibynnol adolygu'r FMPs.

Roedd rhai ymatebwyr eisiau mwy o eglurder ynglŷn â pha sylfeini gwyddonol a fyddai'n cael eu defnyddio, yn enwedig os nad oes data ar gyfer MSY yn bodoli.

### Pysgota cynaliadwy

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn o'r farn bod Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd yn fenter i'w chroesawu er mwyn helpu i reoli pysgodfeydd yn gynaliadwy ledled y DU. Cyfeiriodd llawer at bwysigrwydd pysgodfeydd cynaliadwy a phwysigrwydd FMPs i helpu i gyflawni'r amcan cynaliadwyedd, yr amcan ecosystem ac amcanion eraill. Nododd eraill fod y dull arfaethedig wedi'i raddnodi'n dda i sicrhau cydbwysedd rhwng cynaliadwyedd ac agweddau cymdeithasol ar bysgota.

Awgrymodd lleiafrif o'r ymatebwyr fod angen cynnwys mesurau penodol mewn FMPs, er enghraifft, ffocws ar reoli clefydau, anghenion cymunedau pysgota, rheoli gwastraff offer pysgota, iechyd a lles anifeiliaid, a mynd i'r afael â physgota anghyfreithlon ac anrheoleiddiedig nas hysbysir amdano. Roedd eraill yn dadlau y dylai FMPs fabwysiadu dull cyfannol o reoli ecosystemau, yn enwedig wrth ystyried sut i fodloni amcanion amgylcheddol da ac amcanion y Ddeddf ar gyfer pysgodfeydd.

Roedd nifer o ymatebwyr yn credu y dylai'r JFS gynnwys ymrwymiad i gynhyrchu FMP ar gyfer pob stoc pysgod masnachol, tra bod eraill yn dadlau bod angen FMP ar gyfer pob rhywogaeth sy'n cael ei heffeithio gan bysgota masnachol a physgota hamdden yn y môr.

### Targedau a therfynau amser

Dadleuodd nifer o ymatebwyr fod angen mwy o wybodaeth am yr amseru a'r broses ar gyfer datblygu'r FMPs. Hefyd, roeddent eisiau gweld targedau clir ar gyfer pysgota cynaliadwy a llinell amser ar gyfer cynnal asesiadau stoc.

## Cwestiwn: A oes unrhyw agweddau eraill ar bolisi pysgodfeydd y credwch y dylem eu cynnwys yn y JFS?

### Sylwadau cyffredinol

Ar y cyfan, roedd rhanddeiliaid yn croesawu'r JFS, ond gwnaethant ddweud y dylai gynnwys polisïau mwy diriaethol. Cafwyd adborth hefyd gan rai o'r ymatebwyr y dylai'r JFS integreiddio â deddfwriaeth ehangach yn ymwneud â physgodfeydd. Amlinellir safbwyntiau ar themâu penodol isod.

### Mynediad i ddyfroedd

O'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn, mynegodd nifer bryderon am gychod yr UE neu gychod tramor yn pysgota yn nyfroedd y DU, gan ddweud y bydd y cychod hyn yn lleihau stociau pysgod y DU. Hefyd, awgrymodd lleiafrif bach o'r ymatebwyr hynny y dylai mynediad i bysgodfeydd fod yn seiliedig ar y gymhareb orau o fanteision cymdeithasol ac economaidd o gymharu â chostau amgylcheddol, ac awgrymodd ymateb arall y dylai cychod tramor dalu i gael mynediad i ddyfroedd y DU.

### Lles anifeiliaid

Cyfeiriodd nifer fach o ymatebion at les anifeiliaid gan ofyn am gynnwys y mater hwn yn y JFS, gyda lleiafrif ohonynt yn galw am i les anifeiliaid fod yn amcan ar gyfer pysgodfeydd ynddo'i hun. Daeth yr ymatebion gan grwpiau buddiant, a nododd eu bod am i'r JFS gynnwys ymrwymiadau i ddal a storio anifeiliaid mewn ffordd drugarog, labelu gorfodol ar gyfer bwyd môr er mwyn dangos safonau lles, a chyllid ar gyfer ymchwil i les pysgod. Cyfeiriodd lleiafrif bach o ymatebwyr yn benodol at safonau lles ar gyfer cramenogion, yn benodol gwaharddiad ar unrhyw anffurfio cramenogion dectroed at unrhyw ddiben ac eithrio diben milfeddygol.

### Dyframaethu

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y gallai'r JFS roi mwy o bwyslais ar ddyframaethu. Roedd yr ymatebwyr hyn eisiau gweld mwy o wybodaeth am ddethol safleoedd, mynd i'r afael â llau môr, ac archwilio dyframaeth molysgiaid. Roedd lleiafrif bach o ymatebwyr eisiau gweld strategaeth ar gyfer datblygu dyframaeth adfywio yn y JFS.

### Sgil-ddalfeydd

Cyfeiriodd dau ymateb i'r cwestiwn hwn at sgil-ddalfeydd, gan gyfeirio at Fenter Lleihau Sgil-ddalfeydd y DU. Hefyd, awgrymodd lleiafrif bach o'r ymatebwyr hynny y dylai'r JFS weithio ochr yn ochr ag amcanion Clean Catch UK. Yn ôl un ymateb gan y sector cyflenwyr a manwerthwyr, gan fod sgil-ddalfeydd wedi marw neu bron wedi marw wrth gael eu glanio, dylid eu defnyddio i'w bwyta.

### Newid hinsawdd

Cyfeiriodd nifer o ymatebion i'r cwestiwn hwn at ddiffyg cynnwys ar y newid yn yr hinsawdd, a bod angen i'r JFS ystyried mentrau ynni adnewyddadwy a newid yn yr hinsawdd i raddau mwy. Nododd ymatebion eraill y dylai pysgodfeydd wneud cyfraniad cadarnhaol at gyrraedd targedau newid yn yr hinsawdd.

### Rheoli a gorfodi

Gofynnwyd am ddyrannu cyllid fel bod modd i IFCAs a chyrff statudol eraill gyflawni eu cyfrifoldebau i gynghori, cefnogi a gorfodi rheoliadau ar y diwydiant pysgota. Gofynnwyd hefyd am eglurhad ynglŷn â sut y bydd yn ofynnol i'r cyrff hyn gydymffurfio â pholisïau yn y JFS.

Cyfeiriodd rhai ymatebion at REM gan awgrymu y dylai gael ei adran ei hun, neu alw am wneud REM yn orfodol. Roedd sawl ymateb yn awgrymu hefyd y dylid cryfhau'r testun rheoli a gorfodi yn y JFS.

### Dimensiwn diwylliannol pysgota

Roedd tri ymateb yn cynnwys safbwyntiau ar ddimensiwn diwylliannol pysgota, ac roedd dau ohonynt yn galw am gynnwys pysgota a threftadaeth danddwr yn y JFS. Roedd yr ymateb arall yn galw am ymrwymiadau i ddarparu sicrwydd economaidd a chymdeithasol i gymunedau pysgota.

### Dadleoli

Codwyd dadleoli sawl gwaith mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd consensws y dylai'r JFS fynd i'r afael â dadleoli i raddau mwy, ac amlinellu sut y gallai defnyddwyr gwahanol yr amgylchedd morol achosi dadleoli.

### FMPs

Ychwanegodd sawl ymatebydd awgrymiadau ar gyfer FMPs, gan gynnwys y dylai FMPs ganolbwyntio ar reoli gofodol a rheoli ecosystemau neu nad yw'r rhestr arfaethedig o FMPs yn cynnwys y gwaith o reoli stociau a rennir.

### Diogeledd bwyd

Nododd ymatebion nad oes cysylltiad rhwng y JFS â deddfwriaeth neu bolisi ehangach ar ddiogeledd bwyd, fod angen ystyried pysgota môr masnachol yn ffynhonnell bwyd strategol carbon isel, fel dyframaeth neu fod angen deall pynciau bwydo'r genedl a diogelu'r amgylchedd.

### Cyllid ac adnoddau

Roedd sawl ymateb yn gofyn am ddarparu rhagor o gyllid i'r diwydiant pysgota, asiantaethau statudol a meysydd gwyddoniaeth ac ymchwil. Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer technoleg werdd a moderneiddio, a chyllid ar gyfer gwaith ymchwil yn

ymwneud â lles pysgod. Hefyd, nododd lleiafrif bach o ymatebwyr nad yw'r JFS yn mynd i'r afael â'r pwysau ariannol sy'n deillio o gostau tanwydd uwch.

### Rheoleiddio offer ac ymarfer

Roedd nifer o randdeiliaid yn croesawu ymrwymiad y JFS i gymell defnyddio offer pysgota mwy dethol, ac roedd rhai ymatebwyr yn galw am fwy o fanylion. Galwodd eraill am i offer pysgota fod yn fioddiraddiadwy a sicrhau bod modd ei olrhain.

### Amgylchedd morol iach

Roedd lleiafrif bach o ymatebwyr am sicrhau bod iechyd systemau byw yn brif ystyriaeth gan ddweud nad yw iechyd yr amgylchedd morol wedi cael ei ystyried yn ddigonol. Ar y llaw arall, nododd un ymateb fod y JFS yn canolbwyntio'n ormodol ar yr amgylchedd.

### Adolygu/monitro JFS

Roedd llawer o ymatebwyr yn cytuno y dylid adolygu a monitro'r JFS yn rheolaidd. Byddai lleiafrif bach o ymatebwyr yn hoffi cael adolygiadau JFS amlach, ac roedd un arall am weld adolygiadau FMP yn amlach.

### Llygredd a sbwriel yn y môr

Roedd ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn dadlau bod angen camau gweithredu neu bolisi i fynd i'r afael â sbwriel môr yn y JFS, gan gynnwys gwastraff plastig, gyda lleiafrif bach o ymatebwyr yn awgrymu bod adran rheoli gwastraff ar goll. Roedd nifer fach bellach o ymatebion gan y sector hamdden yn gofyn am roi'r gorau i ddŵr ffo carthion ac amaethyddol i ddyfrffyrdd.

### Cynllunio gofodol morol

Y consensws gan y rhai a gyfeiriodd at gynllunio gofodol morol yn y cwestiwn hwn oedd y dylid ei ehangu yn y JFS. Roedd yr awgrymiadau’n cynnwys ychwanegu targedau ar gyfer Ardaloedd Morol Gwarchodedig, a'u gwarchod yn well, cais am warchod salmonidau mudol, cyflwyno parthau dim pysgota, a gwarchod treftadaeth danddwr trwy gynllunio gofodol morol.

### Stociau heb gwota

Roedd nifer fach o ymatebion yn ystyried y JFS fel cam tuag at reoli stociau heb gwota yn gynaliadwy, ond gan ddweud y gellid cryfhau'r JFS trwy gynnwys polisi ar bysgod prae. Roedd lleiafrif o ymatebwyr yn galw am reoli stociau heb gwota yn well a chanllawiau cliriach.

### Gwneud penderfyniadau cyfranogol

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cefnogi gwneud penderfyniadau cyfranogol, gan awgrymu y gellid gwella'r polisi hwn trwy gynnwys

polisi ymgysylltu cliriach. Nododd lleiafrif bach o ymatebwyr y gallai rhai rhanddeiliaid fod yn awyddus i ychwanegu polisïau at y JFS er eu budd nhw eu hunain.

### Cynhyrchu, marchnata a bwyta

Galwodd sawl ymatebydd am fwy o ymrwymiad i dracio bwyd ac arferion labelu tryloyw ar gyfer bwyd môr. Pwysleisiodd grwpiau buddiant y dylai'r labeli hyn gynnwys gwybodaeth am les anifeiliaid. Gofynnodd rhai am fwy o bwyslais ar farchnata bwyd môr, yn enwedig hyrwyddo bwyd môr fel ffynhonnell bwyd carbon isel, protein uchel. Galwodd ymatebwyr eraill am fwy o gydnabyddiaeth i borthladdoedd a harbwrs yn y JFS. Gofynnodd sawl ymatebydd am gyfeiriad penodol at gyfraniad bwyd môr i ddiogeledd bwyd y DU.

### Cwota

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai'r JFS ymrwymo i ddyraniad ffafriol o gyfleoedd pysgota ar gyfer cychod, i ddulliau pysgota ac arferion rheoli sy'n fwy dethol neu'n cael llai o effaith amgylcheddol fel arall, ac i weithgareddau sy'n dod â mwy o werth economaidd cynaliadwy a chyflogaeth i gymunedau. Roedd lleiafrif o'r ymatebwyr eisiau gweld mwy o fanylion am asesu cwotâu. Roedd lleiafrif bach o ymatebwyr o blaid ailddosbarthu cwotâu oddi wrth gwmnïau mawr.

### Pysgota hamdden yn y môr

Dadleuodd sawl ymatebydd y dylai'r JFS ganolbwyntio mwy ar bysgota hamdden yn y môr, a gofynnodd rhai am fabwysiadu dull gweithredu ledled y DU.

### Gwyddoniaeth a thystiolaeth

Roedd sawl ymatebydd yn croesawu'r pwyslais ar y 'cyngor gwyddonol gorau sydd ar gael' yn y JFS, ac roeddent yn cytuno â'r ymrwymiad y dylai penderfyniadau polisi gael eu hategu gan y wyddoniaeth a'r dystiolaeth orau. Dadleuodd rhanddeiliad ym maes gwyddoniaeth ac ymchwil y dylid creu cronfa o ardollau ar y rhan fwyaf proffidiol o'r diwydiant pysgota i gefnogi gwaith gwyddoniaeth a thystiolaeth. Dadleuodd eraill y dylai gwybodaeth gan bysgotwyr gael ei hymgorffori'n well mewn gwyddoniaeth bresennol a'r broses o greu tystiolaeth.

### Pysgota cynaliadwy

Nododd sawl ymatebydd bwysigrwydd hyrwyddo pysgota cynaliadwy. Dywedodd rhai ymatebwyr y dylai prosesau rheoli pysgodfeydd y glannau ddiogelu pysgod ifanc ac ardaloedd silio. Dadleuodd eraill y dylid hyrwyddo pysgodfeydd y glannau fel enghraifft o ymarfer pysgota hynod gynaliadwy.

### Targedau a therfynau amser

Croesawyd y pwyslais ar yr amcanion pysgodfeydd. Fodd bynnag, roedd consensws bod diffyg targedau yn y JFS. O ganlyniad, y canfyddiad weithiau yw bod y JFS yn

methu â chyflawni ei rwymedigaethau sy'n deillio o'r Ddeddf. Roedd ychydig o ymatebwyr yn poeni am y diffyg polisïau a thargedau mewn pysgodfeydd dal yn wyllt.

### Treillio a rhwydi sân

O’r nifer fach o ymatebwyr wnaeth grybwyll treillio a rhwydi sân roedd y safbwyntiau’n gymysg, gyda rhai am weld ei wahardd, rhai am weld mwy o reoli, neu ar y llaw arall, yn nodi ei fod yn fath o bysgota sy'n dda i'r amgylchedd.

### Gwelliannau i gychod

Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at yr angen am welliannau yng nghyflwr cychod pysgota.

### Y gweithlu

Roedd ychydig o ymatebion yn galw am wella hyfforddiant ar gyfer y gweithlu, ac roedd eraill am i'r JFS roi mwy o sylw i'r gweithlu, gan gynnwys gwella amodau gwaith, llafur cynaliadwy a gofynion cymdeithasol.

### Ymgysylltu rhyngwladol ehangach

Roedd yr holl ymatebion o dan y thema hon wedi dod gan unigolion. Dywedodd lleiafrif bach o ymatebwyr fod adran 4.2.1.13 yn ymwneud â thrafodaethau pysgodfeydd rhyngwladol (yn yr Ymgynghoriad drafft) y tu allan i gylch gwaith y JFS. Fodd bynnag, dywedodd nifer fach o ymatebwyr fod angen cynnwys y cyfeiriad at gytundebau rhyngwladol y DU yn y JFS a bod angen geiriad cryfach gan ddweud bod angen cymhwyso'r gofynion cynaliadwyedd pwysig yn y Ddeddf wrth lunio polisïau rhyngwladol yn ogystal â rhai domestig.

### Materion eraill

Roedd y materion eraill a godwyd yn unigol mewn perthynas â meysydd y credir eu bod ar goll o'r JFS yn cynnwys:

- effeithiau cronnol defnyddwyr morol
- cynyddu cydnabyddiaeth o strategaethau cynaeafu, er mwyn cryfhau'r fframwaith ar gyfer penderfyniadau rheoli
- rôl a statws Dibyniaethau'r Goron
- datrys gwrthdaro, yn enwedig wrth sicrhau cydbwysedd rhwng buddiannau cyhoeddus a masnachol
- cyflwyno cyfundrefn Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer pysgota masnachol, fel gweithgaredd echdynnol
- egluro cysylltiadau â Strategaeth Forol y DU (GES) a'r strategaeth ynni yn llawnach

- ystyried amrywiadau mewn amodau a threfniadau masnach bwyd môr o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a Phrotocol Gogledd Iwerddon
- cysondeb â Nodau Datblygu Cynaliadwy (SDG) y Cenhedloedd Unedig, yn enwedig SDG 1, 2, 6, 8, 11, 13 a 14
- cydgysylltiad rhwng dulliau rheoli ledled y Gweinyddiaethau Datganoledig, ym maes trwyddedu yn benodol

## Cwestiwn: Sylwadau eraill

O ystyried cwmpas eang y cwestiwn hwn, a'r ymatebion amrywiol a ddaeth i law, cyflwynir y crynodebau yn yr adran hon ar ffurf rhestr yn bennaf.

### Mynediad

Mynegodd lleiafrif o ymatebion bryder am fynediad i ddyfroedd y DU, yn enwedig mewn perthynas â chychod yr UE, gan ystyried nad yw'r cychod hyn yn cael eu monitro.

### Dyframaethu

Cyfeiriodd sawl ymatebydd at amrywiaeth eang o faterion yn ymwneud â dyframaethu. Roedd y materion hyn yn ymwneud â'r canlynol:

- cyfleusterau puro mewn harbwrs
- cymorth i fabwysiadu dull dyframaethu sy'n seiliedig ar les ac sy'n ystyriol o les
- gwrthwynebiad i ehangu dyframaeth pysgod asgellog
- galwad am leihau dibyniaeth dyframaeth ar bysgodfeydd gwyllt ar gyfer bwyd pysgod
- galwad am gyfyngu datblygiadau dyframaeth newydd i ddyframaethu caeedig yn unig ac i ffermydd dŵr agored gael eu diddymu'n raddol
- angen i bwysleisio pwysigrwydd dyframaethu ym maes cynhyrchu bwyd, ac ar gyfer twf economaidd cynaliadwy mewn cymunedau gwledig ac arfordirol
- pharhau i ganolbwyntio ar wyddoniaeth a thystiolaeth a chasglu data

### Sgil-ddalfeydd

Cododd nifer o ymatebwyr bwyntiau amrywiol yn ymwneud â sgil-ddalfeydd:

- mae treillrwydo môr-waelodol yn arwain at gyfradd uchel o farwolaethau oherwydd sgil-ddalfeydd, ac mae angen addasu offer pysgota er mwyn lleihau pryderon am les anifeiliaid

- mae angen rhaglenni newydd ar gyfer monitro a chasglu data ar sgil-ddalfeydd er mwyn mynd i'r afael â sgil-ddalfeydd
- mae angen gwaharddiad llwyr ar waredu sgil-ddalfeydd
- dylai dull rheoli pysgodfeydd fod yn gysylltiedig â'r amcan ar gyfer sgil-ddalfeydd
- mae angen rhagor o fanylion am bolisi lliniaru sgil-ddalfeydd, ac mae angen canllawiau ar sut y bydd diffyg cydymffurfiaeth â mesurau sgil-ddalfeydd yn cael ei fonitro a'i orfodi
- dylid ailddiffinio'r amcan ar gyfer sgil-ddalfeydd er mwyn dileu unrhyw argraff bod sgil-ddalfeydd yn broblem ym mhob pysgodfa, a dylai'r amcan gynnwys stociau heb gwota
- mae data ar sgil-ddalfeydd yn gyfyngedig mewn mannau, ac mae angen ei asesu a'i gydgysylltu â'r diwydiant
- mae angen cymryd camau i atal a lleihau sgil-ddalfeydd o fewn amserlen benodol
- dylid caniatáu i Ynys Manaw greu ei pholisïau rheoli ei hun yn ymwneud â rhwymedigaethau glanio

**Newid hinsawdd**

Cafwyd sylwadau fel y canlynol gan rai ymatebwyr yn ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd:

- mae angen rhoi mwy o bwyslais ar newid yn yr hinsawdd
- mae angen mwy o fanylion am y cymorth sydd ar gael mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd a thargedau sero net
- mae angen rhoi mwy o bwyslais ar sut y byddai fflydoedd yn addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd yn hytrach nag ar ddatgarboneiddio, lliniaru ac adfer
- mae yna ddiffyg ystyriaeth o sut y byddai newid yn yr hinsawdd yn arwain at newidiadau mewn dosbarthiad rhywogaethau

**Dyfroedd arfordirol a dyfroedd croyw**

Cafwyd rhai ymatebion ar ddyfroedd arfordirol a dyfroedd croyw:

- mae angen mwy o fanylion am fesurau i reoli amgylcheddau dyfroedd croyw arfordirol ac afonydd
- mae angen cynnwys rôl Asiantaeth yr Amgylchedd

### Rheoli a gorfodi

Cafwyd ychydig o awgrymiadau mewn perthynas â rheoli a gorfodi:

- dylai prosesau monitro, rheoli a goruchwylio cychod gael eu rhoi ar waith at ddibenion lles anifeiliaid hefyd
- mae angen mesurau rheoli a gorfodi cryfach i fynd i'r afael â materion fel sbwriel môr a chofrestriad cudd treill-longau
- ni ddylid cyflwyno defnydd gorfodol o REM at ddibenion rheoli a gorfodi heb gael trafodaeth, a rhaid i'r broses orfodi gydymffurfio â'r dull o wneud penderfyniadau cyfranogol
- dylai'r JFS ddatgan yn fwy penodol y bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn gofyn am ddefnyddio'r technolegau gorau sydd ar gael fel sy'n rhesymol ymarferol, a fyddai'n cynnwys Systemau REM a Monitro Cychod, a dylai'r Llywodraeth ddarparu cymhorthdal;
- mae angen ymrwymiad i'w gwneud yn ofynnol i ddefnyddio system REM gyda chamerâu

### Dimensiwn diwylliannol pysgota

Mynegodd rhai ymatebwyr y safbwyntiau canlynol yn ymwneud â dimensiwn diwylliannol pysgota:

- mae pysgota â gwialen yn rhan allweddol o ddiwylliant pysgota
- mae angen gwarchod treftadaeth ddiwylliannol forol i'r un graddau â nodweddion gwely'r môr naturiol mewn perthynas â gweithgarwch pysgota fel treillrwydo môr-waelodol
- nid oes digon o sôn am gyfrifoldebau'r Llywodraeth i ddiogelu cymunedau arfordirol
- mae'r JFS a'r FMPs yn cynnig cyfle i gydweithio a chefnogi cymunedau arfordirol

### Dadleoli

Soniodd rhai ymatebwyr am ddadleoli mewn perthynas â'r canlynol:

- mae lefelau dadleoli’n cynyddu
- mae'r JFS yn rhy wan wrth drafod dadleoli, ac mae angen ymrwymiad cryfach i liniaru effeithiau economaidd a chymdeithasol dadleoli fflyd
- mae angen darparu iawndal;

- mae angen codi ymwybyddiaeth o'r pwysau dadleoli sy'n deillio o wynt ar y môr, ac o ganlyniad i Ardaloedd Morol Gwarchodedig Iawn ac Ardaloedd Morol Gwarchodedig

**FMPs**

Mynegwyd safbwyntiau amrywiol ar FMPs:

- mae FMPs yn darparu cefnogaeth dda ar gyfer pysgodfeydd a bwyd môr
- mynegwyd pryderon y byddai awdurdodau rheoli yn ceisio ehangu eu dylanwad
- mae angen mwy o eglurder a manylder, gan gynnwys ar gyfer rhywogaethau lefel troffig is, megis pysgod prae, sy'n cefnogi stociau o ddiddordeb masnachol
- dylai strategaeth rheoli pysgodfeydd Lloegr gael blaenoriaeth dros FMPs
- mae angen gweld mwy o wybodaeth am FMPs, gan sicrhau eu bod yn gyfranogol ac yn seiliedig ar dystiolaeth;
- mae'n rhaid i reolwyr pysgodfeydd gael eu gorfodi'n gyfreithiol i gydymffurfio â'r FMPs

**Diogeledd bwyd**

Cafwyd dau sylw’n ymwneud â diogeledd bwyd:

- dylai'r JFS roi blaenoriaeth i ddiogeledd bwyd a chynhyrchu bwyd dros ddefnyddiau eraill o'r môr, dylid ail-werthuso blaenoriaethau mewn trafodaethau rhyngwladol, a dylid sicrhau cydbwysedd rhwng diogeledd bwyd a diogelu'r amgylchedd
- mae angen rhoi mwy o bwyslais ar gyfraniad pysgodfeydd dal pysgod yn wyllt at ddiogeledd bwyd y DU

**Cyllid**

Mynegodd nifer o ymatebwyr safbwyntiau ar gyllid:

- ni ddylai cychod pysgota newydd gael eu hariannu gan y trethdalwr, ac mae angen hyrwyddo buddsoddiad preifat tuag at drefn rheoli cynaliadwy
- dylai cyllid ar gyfer hyrwyddo neu ddatblygu pysgota hamdden gael ei adlewyrchu'n briodol yn y JFS
- mae angen darparu cyllid digonol ar gyfer gwyddoniaeth a thystiolaeth a darparu'r manylion perthnasol
- mae angen cyllid ar gyd-reoli;

- mae angen cymorth ariannol ar gyfer y JFS ac FMPs

**Offer ac arferion**

Cafwyd sylwadau gan ychydig o ymatebwyr yn ymwneud ag offer ac arferion:

- mae angen mwy o waith ymchwil yn ymwneud ag arferion pysgota megis offer pysgota sy'n ystyried lles
- mae angen gweithio'n barhaus i ddethol offer
- mae angen cymryd camau gweithredu ar sgil-ddalfeydd, gan gynnwys addasu offer;
- cydnabyddir y bwlch gwyddonol yn ymwneud â physgodfeydd trugarog, dylid cynyddu'r defnydd o daro pysgod yn anymwybodol a'u lladd mewn ffordd drugarog ar y cwch, a defnyddio dulliau lladd trugarog

**Amgylchedd morol iach**

O ran amgylchedd morol iach:

- dylid blaenoriaethu cadwraeth dros ystyriaethau economaidd
- ni roddir unrhyw gydnabyddiaeth bod y DU wedi llofnodi'r Confensiwn Gwarchod Eogiaid yng Ngogledd yr Iwerydd
- dim ond pysgotwyr y DU sy'n ysgwyddo'r baich cadwraeth
- rhaid i'r JFS integreiddio gwaith rheoli pysgodfeydd â'r targedau ehangach i fodloni GES
- dylem fod yn tyfu ac yn gwella ecosystemau morol
- mae'r rhan fwyaf o ddulliau pysgota’n anghydnaws â dull gweithredu sy'n seiliedig ar ecosystemau
- dylai'r JFS ddatblygu dull cylch bywyd o reoli pysgodfeydd trwy'r amcan ecosystem
- cymryd camau wedi'u targedu er mwyn cynnal stociau pysgod a sicrhau bod modd adfer ecosystemau morol
- ni ddylid ynysu elfen ddynol pysgodfeydd o effaith pysgodfeydd ar stociau, cynefinoedd ac ecosystemau
- mae angen rhagor o fesurau i reoli ecosystemau yn effeithiol ac adfer cefnforoedd

**Llygredd a sbwriel môr**

Cyfeiriodd ychydig o ymatebwyr at lygredd a sbwriel môr:

- mynegwyd pryderon am lygredd a sbwriel môr sy’n deillio o offer pysgota sy'n cael ei daflu i'r môr
- dylai'r rhai sy'n achosi llygredd gael eu trethu er mwyn ariannu ymdrechion sero net
- mae angen cyflwyno gwaharddiad llwyr ar achosi llygredd
- dylid cydnabod bod llawer o fflydoedd eisoes yn cael gwared ar bob math o sbwriel môr

**Cynllunio gofodol morol**

Cafwyd ychydig o sylwadau ar gynllunio gofodol morol:

- dylai'r JFS nodi sut y byddai gwaith cynllunio gofodol morol yn cael ei wneud yn well
- mae yna gyfle i'r JFS gysoni pysgota masnachol yn llawn â'r system cynllunio morol

**Stociau heb gwota**

O safbwynt stociau heb gwota, nododd nifer fach o ymatebwyr fod FMPs wedi’u cynnig ar gyfer stociau penodol, ond y byddai'n dda cael cynlluniau ychwanegol ar gyfer cimychiaid, crancod, langwstîn, corgimychiaid a stociau eraill heb gwota.

**Gwneud penderfyniadau cyfranogol**

Cafwyd rhai sylwadau ar wneud penderfyniadau cyfranogol:

- gwrthwynebu'r cyfraniad ariannol cynyddol gan ddiwydiant er mwyn hwyluso proses gwneud penderfyniadau cyfranogol
- byddai angen gwaith ymchwil cydweithredol a gwyddoniaeth dan arweiniad y diwydiant ar gyfer prosesau cyd-reoli
- pryderon yn ymwneud â sut y byddai ymgysylltu ar FMPs yn digwydd, a bod angen cynnwys yr holl randdeiliaid o'r cychwyn wrth ddatblygu FMPs
- mae angen i'r JFS ddarparu gwybodaeth ychwanegol am ystyr cyd-reoli, pryd a sut y bydd yn digwydd mewn perthynas â datblygu FMPs, sut y bydd y gwaith yn cael ei ariannu, a'r ffaith bod angen iddo gynnwys y diwydiant
- mae'n rhaid i gyd-reoli ac ymgysylltu fod â mecanweithiau cadarn i osgoi dull gweithredu o'r brig i lawr, a rhaid iddynt fod yn gydweithredol

**Cwotâu**

Cyflwynodd sawl ymatebydd sylwadau ar gwotâu:

- dylai'r fframwaith presennol ar gyfer pennu cwotâu gael ei addasu i fod yn fframwaith sy'n diffinio cyfyngiadau yn hytrach na thargedau
- mae angen dyrannu cyfran fwy o gwotâu i fflydoedd pysgota graddfa fach ar y glannau sy'n llai niweidiol i'r amgylchedd
- dylai fod gan Ynys Manaw ei dyraniad cwota ei hun
- nid yw'r dull Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf (MSY) yn gynaliadwy ar gyfer pysgota hamdden yn y môr
- mae angen rhoi'r dull MSY ar waith mewn ffordd bragmatig a hyblyg
- mae angen egluro'r amcan rhagofalus, fel y mae'n berthnasol i MSY
- mae angen rhagor o fetrigau er mwyn rheoli'r amgylchedd morol, y tu hwnt i MSY
- nid yw MSY yn ddigon uchelgeisiol
- dylid cefnogi Cynnyrch Economaidd Mwyaf dros MSY
- dylai arferion pysgota gydymffurfio â chyngor gwyddonol er mwyn adfer stociau a'u cynnal yn uwch na lefelau biomas sy'n gallu cynnal MSY
- dylai'r JFS nodi ei fod yn ffafrio glaniadau dalfeydd pysgod nad ydynt yn cael eu rheoli gan Ddalfa Fwyaf a Ganiateir

**Pysgota hamdden yn y môr**

Mynegwyd sawl safbwynt ar bysgota hamdden yn y môr:

- mae'r JFS yn methu â chydnabod pwysigrwydd pysgota hamdden yn y môr
- rhaid nodi bod FMPs ar gyfer stociau sydd o ddiddordeb i bysgotwyr hamdden hefyd
- mae effaith economaidd pysgota hamdden â gwialen yn Lloegr yn fwy o lawer nag effaith economaidd pysgota masnachol, ac mae manteision economaidd-gymdeithasol pysgota hamdden yn fwy o lawer nag effaith pysgota masnachol yng Nghymru a Lloegr
- mae angen cynnwys cyfleoedd ar gyfer pysgota hamdden, a dylai cyfleoedd pysgota gael eu rhannu â physgota hamdden yn y môr
- mae angen gwneud mwy i gofnodi effeithiau'r sector hamdden ar stociau fel rhan o'r dull ecosystem, ac mae angen cysylltu pysgota hamdden yn y môr â'r adran IUU hefyd

### Adolygu ac adrodd

Cyfeiriodd ychydig o ymatebwyr at adolygu ac adrodd:

- mae angen rhagor o wybodaeth am y broses adolygu ac adrodd
- dylai adolygiadau o'r FMPs fod ar gael i'r cyhoedd
- cytuno y dylai'r JFS fod yn destun adolygiadau rheolaidd

### Crafu gwely'r môr

Cafwyd y sylwadau canlynol ar grafu gwely'r môr:

- mae'r data yn ymwneud â chrafu gwely'r môr yn ansicr ac yn destun anghytuno, felly dylai'r JFS fabwysiadu agwedd fwy trylwyr
- mae treillrwydo môr-waelodol yn niweidio cynefinoedd benthig ac yn rhyddhau symiau sylweddol o garbon

### Treillwyr enfawr

Ni fynegwyd teimladau cryfion am dreillwyr enfawr, ond cyfeiriwyd at roi terfyn ar bysgota anghyfreithlon gan dreillwyr enfawr.

### Pysgota cynaliadwy

Cafwyd sylwadau amrywiol gan ymatebwyr ar bysgota cynaliadwy:

- mae angen i'r drafodaeth ar bysgodfeydd cynaliadwy gynnwys mesurau sy'n gallu lleihau dioddefaint anifeiliaid sy'n cael eu dal yn y gwyllt
- nid yw ffermio eogiaid a brithyllod seithliw yn yr Alban yn gynaliadwy, ac mae'n niweidio'r amgylchedd ac anifeiliaid dyfrol gwyllt
- dylai'r JFS gydnabod elasmobranchiaid trwy ddiogelu rhywogaethau sy'n agored i niwed a gweithio i sicrhau pysgodfeydd cynaliadwy
- dylai'r diwydiant dderbyn cyfrifoldeb am gostau gwaith rheoli cynaliadwy
- mae datganiad polisi cadarn ar gyfer pysgodfeydd cynaliadwy yn cyd-fynd â'r sector dyframaeth
- mae angen cynnwys mesurau eraill i sicrhau pysgodfeydd sy'n gynaliadwy o safbwynt amgylcheddol
- mae cysylltiad agos rhwng gorbysgota, pysgod yn dioddef a sgil-ddalfeydd

### Targedau a therfynau amser

Roedd rhai ymatebwyr wedi gwneud sylwadau ar dargedau a therfynau amser:

- mae'n rhaid cyflwyno dyddiadau a thargedau clir ar gyfer datgarboneiddio'r diwydiant
- mae angen gosod targedau mwy eglur ar gyfer diogelu ac ehangu'r rhwydwaith MPA
- mae angen targedau ymarferol a realistig sy'n seiliedig ar amser i gyflawni'r amcanion trwy'r FMPs
- mae angen ystyried dull seiliedig ar risgiau o'i gymharu â dull rhagofalus
- nid yw'r dull rhagofalus yn ei ffurf bresennol yn ddigon rhagofalus

### Cysylltiadau rhyngwladol ehangach

O safbwynt cysylltiadau rhyngwladol ehangach, nodwyd bod angen ystyried y cysylltiadau rhwng trafodaethau rhyngwladol a'r FMPs, a chysylltiadau gyda'r DAs a rhanddeiliaid.

### Y gweithlu

Cafwyd rhai sylwadau ar faterion y gweithlu:

- pryderon nad yw'r JFS yn ystyried prinder gweithwyr newydd, y gweithlu annigonol a'r ffaith fod y gweithlu yn heneiddio
- dylai pysgotwyr newydd ymgymryd â hyfforddiant galwedigaethol gorfodol ym maes rheoli ecosystemau a'r môr cyn derbyn trwydded fasnachol
- dylai pysgotwyr dderbyn hyfforddiant digonol yn ymwneud â materion lles pysgod
- bydd angen amser i greu swyddi a denu gweithwyr newydd ac mae angen sicrhau cysondeb â chyfleoedd sy'n cael eu creu mewn FMPs yn y dyfodol

## Camau Nesaf

Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn rhoi ystyriaeth ofalus i themâu ac argymhellion sydd wedi'u cyflwyno gan randdeiliaid. Defnyddir y dadansoddiad hwn i lywio JFS terfynol a gaiff ei gwblhau a'i gyhoeddi ym mis Tachwedd 2022. Cyhoeddir ymateb llawn i'r ymgynghoriad ym mis Tachwedd 2022 hefyd. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cadw'n ddiogel am ddwy flynedd yn unol â'r polisïau cadw gwybodaeth.

## Rhestr o sefydliadau na wnaethant ofyn am gyfrinachedd

- Angling Cymru

- Angling Trust
- Animal Aid Cymru
- Aquatic Life Institute Europe
- Association of Inshore Fisheries Conservation Authorities (AIFCA)
- Association of Local Government Archaeological Officers (ALGAO)
- Bass Anglers’ Sportfishing Society (BASS)
- Blue Marine Foundation
- British Spearfishing Association
- Cyngor Sir Ceredigion
- Chartered Institute for Archaeologists and Council for British Archaeology
- Client Earth
- Community of Arran Seabed Trust (COAST)
- Compassion in World Farming
- Conservative Animal Welfare Foundation
- Cornish Fish Producers Organisation (CFPO)
- Cornwall Council
- Council for Nature Conservation and the Countryside (CNCC)
- Crustacean Compassion
- Eastern England Fish Producers Organisation
- Fish Legal
- Bwyty pysgod a genweiriwr
- Fishing into the Future (FiTF)
- Fishy Filaments Cyf.
- Future Fisheries Alliance (FFA)
- Grimsby Fish Dock Enterprises Limited
- Historic England
- Holderness Fishing Industry Group
- International Transport Workers Federation (ITF)
- Isle of Man Government
- Joint Nautical Archaeology Policy Committee (JNAPC)
- LGA Coastal SIG
- Macduff Shellfish Cyf.
- Mallaig & North West Fishermen’s Association (MNWFA)
- Manx Fish Producers Organisation
- Y Sefydliad Rheoli Morol (MMO)
- Y Cyngor Stiwardiaeth Forol (MSC)
- Mid Ulster Council
- Cyngor Sir Fynwy
- National Federation of Fish Friers
- Ffederasiwn Cenedlaethol Cymdeithasau Pysgotwyr (NFFO)
- Natural England
- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
- NE Scotland Fisheries Development Partnership
- New Economics Foundation (NEF)
- New Under Ten Fishermen's Association (NUTFA)
- North Atlantic Holdings Cyf.

- North Eastern Inshore Fisheries and Conservation Authority (NEIFCA)
- Northern Ireland Federation of Sea Anglers (NIFSA)
- Northern Ireland Fishermen's Federation (NIFF)
- Northern Ireland Marine Task Force (NIMTF)
- Oceana
- Open Seas
- Orkney Fisheries Association
- Our Seas Coalition
- Perth and Kinross Council
- Plymouth Fishing and Seafood Association CIC
- Awdurdod Porthladd Llundain
- Project Speed UK
- Rest-O-Tank Ltd
- Rooney Fish
- Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
- Royal Yachting Association
- SafetyNet Technologies
- Salmon & Trout Conservation Scotland
- Salmon Scotland
- Salmon Scotland
- Save our Sea Bass (SOSB)
- Scottish Creel Fisherman's Federation
- Scottish Fishermen's Federation
- Scottish Society for the Protection of Animals (SPCA)
- Scottish White Fish Producers Association
- Seafood Scotland
- Seal Research Trust
- Gweinidog Newid Hinsawdd yr Wrthblaid (Y Ceidwadwyr Cymreig)/Senedd Cymru
- Shark Trust
- Cymdeithas Pysgod Cregyn Prydain Fawr (SAGB)
- South Devon & Channel Shellfishermen Ltd.
- South West Fish Producers Organisation (SWFPO)
- SSE Renewables
- SSINGECO LTD
- Sustainable Seafood Coalition
- Tesco
- Ystâd y Goron
- Y Gymdeithas Fiolegol Forol (MBA)
- Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd
- The Pew Trusts
- The Renaissance of the East Anglian Fisheries (REAF)
- Yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt
- Trondra
- United Kingdom Fish Producers Organisation (UKAFPO)
- University of Glasgow

- University of Southampton
- Waitrose
- Cymdeithas Pysgotwyr Cymru
- Western Fish Producers' Organisation (WFPO)
- Whale and Dolphin Conservation (WDC)
- Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru (WTW)
- World Cetacean Alliance

## Atodiad 1- Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Gofynnwyd i ymatebwyr roi atebion i'r cwestiynau canlynol amdanyn nhw eu hunain neu eu sefydliad.

- Hoffech chi i ni gadw'ch ymateb yn gyfrinachol?
- Beth yw eich enw?
- Beth yw eich sefydliad?
- Beth yw eich cyfeiriad e-bost?
- Ym mha wlad ydych chi'n byw neu ym mha wlad y mae gennych ddiddordeb ynddi? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)
- Pa un o'r canlynol yw'r disgrifiad gorau o'ch diddordeb yn y JFS (dewiswch un opsiwn sy'n disgrifio eich diddordeb)

Gofynnwyd i ymatebwyr roi atebion i'r cwestiynau canlynol am y JFS drafft.

- Cwestiwn: I ba raddau rydych yn credu y bydd y polisïau a ddisgrifir yn y JFS drafft yn cyflawni, neu'n cyfrannu at gyflawni'r amcanion ar gyfer pysgodfeydd? Eglurwch eich ateb, gan gyfeirio at gynnwys penodol yn y JFS lle bynnag y bo modd.
- Cwestiwn: Beth yw'ch barn am y cynigion ar gyfer datblygu Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd? (FMPs)?
- Cwestiwn: A oes unrhyw agweddau eraill ar bolisi pysgodfeydd y credwch y dylem eu cynnwys yn y JFS?
- Cwestiwn: Mae ein cwestiynau ymgynghori wedi'u cynllunio i fod yn eang eu cwmpas a gobeithio eu bod wedi rhoi cyfle i chi fyneg barn ystyrlon am y JFS drafft hwn. Os oes gennych ragor o sylwadau, nodwch nhw yma: